



Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref

Simon Thomas AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

19 Gorffennaf 2018

Annwyl Simon,

Rwy'n ysgrifennu atoch fel cadeirydd y Pwyllgor Cyllid i ymhelaethu ar sylw a wnaethpwyd gennyf ar 27 Mehefin wrth roi tystiolaeth fel rhan o'ch Ymchwiliad i'r paratodau ar gyfer yr hyn fydd yn disodli cyllid yr UE yng Nghymru.

Mewn ymateb i gwestiynau am opsiynau amgen yn lle Horizon 2020, a sut y gallwn sicrhau bod prifysgolion Cymru yn cael eu hamddiffyn, dywedais fod prifysgolion Cymru wedi bod yn fwy llwyddiannus mewn perthynas â Horizon 2020 na rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

Mae prifysgolion Cymru wedi llwyddo i ddenu gwerth dros €67 miliwn o grantiau Horizon 2020 (28 Mehefin 2018), heb gynnwys y €9.5 miliwn ychwanegol a ddaeth i Gymru er lles prifysgolion drwy COFUND Sêr Cymru Llywodraeth Cymru. Golyga hyn mai prifysgolion Cymru sy'n denu 69% o gyllid Horizon 2020 yng Nghymru - sy'n uwch na chanran gyfatebol y DU (66%), er mai rhai sefydliadau unigol mewn mannau eraill, fel Coleg Prifysgol Llundain, sydd ar frig rhestr derbynwyr y DU.

Mae prifysgolion Cymru hefyd yn gwneud yn dda iawn mewn cyd-destun Ewropeaidd. Dyfarnwyd 0.6% o holl gyllid Horizon 2020 ar gyfer cyrff addysg uwch yr UE yn uniongyrchol i brifysgolion Cymru, sy'n unol â'n cyfran o boblogaeth yr Undeb Ewropeaidd.

Mae Prifysgol Caerdydd ei hun wedi derbyn dros €35 miliwn gan Horizon 2020 ers 2014, sy'n ei gosod yn 23ain ar y rhestr o brifysgolion y DU. Mae prifysgolion Cymru hefyd yn nodedig o lwyddiannus yn y Cyngor Ymchwil Ewropeaidd a'r rhaglen Marie Skłodowska-Curie Actions, ond mae ganddynt bresenoldeb da ar draws gwahanol rannau o'r rhaglen yn ôl eu harbenigedd (er enghraifft Prifysgol Aberystwyth yn y rhaglen Amaethyddiaeth).

Mae hyn oll yn ategu pwysigrwydd fy sylwadau eraill i'r Pwyllgor. Gall Horizon 2020 a'i olynnydd Horizon Ewrop gynnig gwerth ychwanegol clir drwy enw da eu brandiau byd-eang, y gydnabyddiaeth ledled y byd o'u rhagoriaeth, eu cyllideb gynyddol a'u dull o gydweithredu rhyngwladol. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i sicrhau mynediad llawn at y rhaglenni pwysig hyn ar ôl i ni ymadael â'r UE.

Mae'n arbennig o bwysig i Lywodraeth y DU hefyd gydnabod effaith cronfeydd ymchwil ac arloesi ar lefel ymarferol, gan fod gallu Cymru i gymryd rhan yn Horizon 2020 yn pwyso ar sylfaen o dros £300m o fuddsoddiad Cronfeydd Strwythurol yr UE mewn ymchwil ac arloesi drwy raglen 2014-2020, yn adeiladu ar fuddsoddiadau rhaglenni blaenorol. Fel y gwelir yn Adroddiad Blynyddol Horizon 2020 yng Nghymru<sup>1</sup>, mae Cymru yn gwneud cynnydd da iawn, ond mae materion strwythurol yn parhau. Gan gofio'r cysylltiad cryf rhwng cyllid a mynediad a pherfformiad Cymru yn Horizon 2020, gallai'r momentwm gael ei golli heb gyllid rhanbarthol cyfatebol gan y DU.

Cofion gorau,

A handwritten signature in black ink that reads "Mark". The letters are cursive and slightly slanted to the right.

**Mark Drakeford AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid  
Cabinet Secretary for Finance

---

<sup>1</sup><https://gov.wales/docs/wefo/publications/horizon/180307-horizon-annual-report-2017-cy.pdf>